NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Bisffosffonadau ar gyfer trin osteoporosis

18 Ebrill 2019

Mae'r bisffosffonadau asid alendronig, asid ibandronig, sodiwm risedronad ac asid soledronig ar gael ar y GIG fel triniaethau posibl ar gyfer pobl sy'n wynebu risg uwch o dorri asgwrn o ganlyniad i osteoporosis.

Os nad ydych yn gymwys i gael asid alendronig, asid ibandronig, sodiwm risedronad neu asid soledronig, ond rydych eisoes yn cymryd un ohonynt, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg gywir i roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol, 0808 800 0035
- Arthritis Research UK, 0800 5200 520
- ARMA, 0203 856 1978



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2625-1



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.